Cardiff Capital Region
Regional Cabinet Meeting

9.30am-11.30am on Monday 28 June 2021
Hybrid Meeting using Microsoft Teams

Minutes

* Italics indicate attendees were present via Microsoft Teams

Leaders and Chief Executives

Cllr Nigel Daniels	*Leader*	*Blaenau Gwent CBC*
Michelle Morris	*Managing Director*	*Blaenau Gwent CBC*
Mark Shephard	*Chief Executive*	*Bridgend CBC*
Cllr Philippa Marsden	Leader	Caerphilly CBC
Mark Williams	Corporate Director For Economy & Environment	Caerphilly CBC
Cllr Huw Thomas	Leader	Cardiff Council
Paul Orders	Chief Executive	Cardiff Council
Cllr Lisa Mytton	Leader	Merthyr Tydfil CBC
Ellis Cooper	Chief Executive	Merthyr Tydfil CBC
Cllr Richard John	*Leader*	*Monmouthshire CC*
Paul Matthews	*Chief Executive*	*Monmouthshire CC*
Cllr Jane Mudd	*Leader*	*Newport CC*
Beverly Owen	*Chief Executive*	*Newport CC*
Cllr Andrew Morgan	Leader	Rhondda Cynon Taf CBC
Chris Bradshaw	Chief Executive	Rhondda Cynon Taf CBC
Cllr Anthony Hunt	Leader	Torfaen CBC
Rachel Jowitt	Chief Officer	Torfaen CBC
Cllr Neil Moore	*Leader*	*Vale of Glamorgan Council*
Rob Thomas (away 10:00-11:08)	*Chief Executive*	*Vale of Glamorgan Council*

Officers

Christopher Lee	Section 151 Officer	Accountable Body
Anil Hirani	*Accountancy Manager*	*Accountable Body*
Gareth Gates	Accountant	Accountable Body
James Williams	Solicitor	Accountable Body
Chloe Williams	*Solicitor*	*Accountable Body*
Peter Davies (from 10:58)	*Chief Officer Resources*	*Monmouthshire CC*
Jonathan Davies (from 10:58)	*Acting Assistant Head of Finance*	*Monmouthshire CC*
Kellie Beirne	Director	Office of the CCR
Rhys Thomas	Chief Operating Officer	Office of the CCR
Nicola Somerville	Head of Inclusive Growth & Business Development	Office of the CCR
Suzanne Chesterton	*Marketing & Communications Lead*	*Office of the CCR*
Robert O'Dwyer	Head of Infrastructure	Office of the CCR

Clare Cameron	Transport & Energy Manager	Office of the CCR
Nathan Llewellyn	*Marketing & Communications Officer*	*Office of the CCR*
Alison Merrifield	*Project Officer*	*Office of the CCR*
Nicola Butler	Business Development & Partnership Officer	Office of the CCR
Liz Fitzgerald (minutes)	*Business Development & Partnership Officer*	*Office of the CCR*

Presenters

Sara-Jane Byrne	*Audit Manager*	*Audit Wales*
Phil Pugh (until 10:09)	*Audit Manager*	*Audit Wales*

Observers

Gareth Ashman	*Head Of Infrastructure*	*UK Government*
Jenna Dillon	*Senior Project Delivery Manager – South East Wales*	*Welsh Government*

Apologies

Cllr Huw David	Leader	Bridgend CBC
Christina Harrhy	Chief Executive	Caerphilly CBC
Hrjinder Singh	Head of Finance, Risk & Assurance	Office of the CCR

Recording of the meeting started at 09:25

1. Welcome and Apologies

Cllr Hunt opened the meeting and welcomed all attendees to the new hybrid format. Kellie provided guidance and assurance on how the meeting would be conducted to ensure that all Leaders were fully involved in the meeting, whether in person or via Microsoft Teams.

2. Declarations of Interest

(1) Cllr Andrew Morgan declared an interest in Item 4, Audit Wales Annual Audit Plan 2020/21, because he knows Phil Pugh and his family in a personal capacity.

(2) Cllr Lisa Mytton declared an interest in Item 11, Report of the Investment Panel: Recommendations Logs and Project Updates, as she had previously been employed by one of the organisations under discussion.

(3) Beverly Owen declared an interest in Item 12, CSC Foundry Limited – Annual Business Plan and Annual Update Report, as she is currently a Board member of CSC Foundry Limited.

3. Minutes of the meeting held on 15 March 2021

The minutes of the meeting held on 15 March were agreed as a true and accurate record of the meeting, subject to the correction of Cllr John's forename

in the list of attendance.

4. Audit Wales Annual Audit Plan 2020/21

(1) Phil Pugh introduced the report and summarised the contents. Sara-Jane Byrne added that Audit Wales's fees would rise, because of the additional work required for the CCR's transition to a CJC structure. She was unable to determine at the present time how much the difference would be in relation to the current fees.

(2) Sara-Jane noted the potential conflict of interest highlighted in paragraph 28 on page 12 of the report. As stated in the report, she did not foresee any issues arising.

(3) Sara-Jane advised that there had been some staff changes at Audit Wales. Ann-Marie Harkin had been promoted to Executive Director in the Executive Leadership Team. Derwyn Owen had been appointed as Engagement Director.

(4) Leaders accepted the Audit Plan.

5. 2020/21 Draft Statement of Accounts and Draft Annual Governance Statement – Controls, Ratings and Actions

(1) Christopher introduced the report. He advised that the online inspection of the draft accounts would be available for a four-week period. Regional Cabinet would then be asked to sign the accounts no later than 30 November 2021, whereupon the accounts and Annual Governance Statement (AGS) would be published. A shorter version of the AGS would be available for the next meeting.

(2) Cllr Hunt obtained individual votes of acceptance from Leaders in the following order: Newport; Monmouthshire; Blaenau Gwent; Vale of Glamorgan; Merthyr Tydfil; Caerphilly; Rhondda Cynon Taf; Cardiff; Torfaen.

Cllr David was not present to vote for Bridgend.

(3) It was resolved that the CCR Regional Cabinet:

(1) noted that the Draft Statement of Accounts for the year ended 31 March 2021 (attached as Appendix 1) had been:

i. signed by the Section 151 Officer;
ii. provided to Audit Wales to allow them to commence their audit of the statements;
iii. will be made available for public inspection for a period of four weeks.

(2) noted that the Draft Annual Governance Statement – Controls, Ratings and Actions document (attached as Appendix 2) would be provided to Audit Wales as part of the audit and updated with further comments prior to finalisation.

6. Joint Committee Revenue Budget Final Outturn Position

(1) Christopher introduced the report. Cllr Marsden queried the matter of recruitment for the CCR office but further discussion would take place during the Briefing later that morning.

(2) Cllr Hunt obtained individual votes of acceptance from Leaders in the following order: Newport; Monmouthshire; Blaenau Gwent; Vale of Glamorgan; Merthyr Tydfil; Caerphilly; Rhondda Cynon Taf; Cardiff; Torfaen.

Cllr David was not present to vote for Bridgend.

(3) It was resolved that the CCR Regional Cabinet:

(1) noted the final outturn position against the approved Joint Committee Revenue Budget for the year ending 31 March 2021.

7. 2020/21 Annual Business Plan - Quarter 4 Performance Report

Appendix 4 to this report is exempt from publication because it contains such information as described in paragraphs 14 (information relating to the financial or business affairs of any particular person) and 21 (public interest test) of sections 4 and 5 of Schedule 12A to the Local Government Act 1972 and in all the circumstances of the case the public interest in maintaining the exemption outweighs the public interest in disclosing the information

(1) Kellie introduced the report and advised Leaders that Appendix 3 was in a template that would be adopted for monitoring reports going forward. She confirmed that arrangements for one-to-one meetings with portfolio leads were underway.

(2) Cllr Thomas noted that there were some capital underspends in the financial information in Appendix 2. Kellie confirmed that it they were mainly related to the Metro Plus and Metro Central capital schemes. In respect of Metro Plus projects were at different stages and progress was subject to local authority impetus. Regarding Metro Central, the business case process was underway and the CCR were working with Transport for Wales around building a proposition.

(3) Cllr Hunt obtained individual votes of acceptance from Leaders in the following order: Newport; Monmouthshire; Blaenau Gwent; Vale of Glamorgan; Merthyr Tydfil; Caerphilly; Rhondda Cynon Taf; Cardiff; Torfaen.

Cllr David was not present to vote for Bridgend.

(4) It was resolved that the CCR Regional Cabinet:

(1) noted the overall progress at Quarter 4 2020/21 including the budget position reported at Appendix 2;

(2) approved the Quarter 4 performance report and authorised the Director of the Cardiff Capital Region City Deal to formally submit the report, including supporting information to both UK and Welsh

Governments, and other stakeholders as required, on behalf of the Regional Cabinet;

(3) noted the Quarter 4 Programme Monitoring Report at Appendix 3, that sets out the enhanced approach to highlight reports and overall comprehensive programme monitoring on the first tranche of delivery projects.

8. Developing a Framework for Risk Management

(1) Kellie introduced the report.

Phil Pugh left the meeting at 10:09

(2) Cllr Marsden wished to note the importance of factoring climate change into risk and welcomed its inclusion in the report. Cllr Hunt agreed and noted an increased awareness that value-for-money and risk were not just relevant to financial matters but also included issues such as raising employment standards and inclusive growth across all communities; an appetite for risk could be used to the benefit of the whole economy.

(3) Cllr Thomas asked if there was opportunity to align the policy further with the work of individual local authorities across the region. All local authorities had their own climate emergency response plans and Cllr Thomas asked if the Wider Investment Fund could be used to support local authorities who were bringing their own plans forward. Kellie agreed and said that these issues were brought out in the next report on the agenda, the CCR Energy Strategy.

(4) Cllr Hunt obtained individual votes of acceptance from Leaders in the following order: Newport; Monmouthshire; Blaenau Gwent; Vale of Glamorgan; Merthyr Tydfil; Caerphilly; Rhondda Cynon Taf; Cardiff; Torfaen.

Cllr David was not present to vote for Bridgend.

(5) It was resolved that the CCR Regional Cabinet:

(1) noted the work of AON, the CCR Office and wider stakeholders in respect of the recommendations and risk appetite statements to underpin a CCR Core Risk Framework;

(2) acknowledged the join-up and integration needed with the emerging CCR Investment Strategy (which will implement the recent IIF Review) findings and further recognised the need to receive and positon this work within the transition process for the CJC;

(3) noted and endorsed the update CCR Risk Register which, as far as possible, begins to develop and incorporate key themes and issues identified within the AON work.

9. CCR Energy Strategy – Implementation Priorities 2021/22 and Embracing the Race to Zero

(1) Kellie introduced the report and highlighted recent regional activity such as the

regional planning day held on 16 June and the forthcoming COP26 conference.

(2) Leaders discussed the item:

1) Cllr Mytton said that the report provided a holistic view of the subject.
2) Cllr John said that local authorities had signed up to recognise the climate change emergency. This indicated the region as being dynamic and progressive.
3) Cllr Mudd sought clarity around proposal and match funding and asked if additional funding or matching existing investments would be the option. Kellie confirmed that the costs did not affect the current financial envelope. Kellie did not have authority to approve anything over and above the envelope; any such excess costs would be presented to the Regional Cabinet for their approval.
4) Cllr Mudd also wished to note the broader opportunities; it was right to focus on the issues but the region should not lose sight of its location and unique natural assets across the geographical area. She noted that the Western Gateway were planning to attend COP26 and would like consideration of how the region could join forces with the UK and Welsh Governments to accelerate change within the region.
5) Cllr Thomas supported Cllr Mudd's points but reiterated the need to build on what the local authorities had already achieved. For example, Cardiff Council had invested significantly in what was required to be a net zero council.
6) Leaders would welcome clarification around likely costings as it was important that they had that awareness; it was important to have clarity and transparency in terms of ongoing financial contributions.
7) Cllr Marsden suggested an extra recommendation should be agreed, to the effect that the CCR would (a) conduct a mapping exercise of current energy projects and (b) report back before any projects came forward with a future indicator of resourcing required. Leaders agreed to the additional recommendation.

(3) Cllr Hunt obtained individual votes of acceptance from Leaders in the following order: Newport; Monmouthshire; Blaenau Gwent; Vale of Glamorgan; Merthyr Tydfil; Caerphilly; Rhondda Cynon Taf; Cardiff; Torfaen.

Cllr David was not present to vote for Bridgend.

(4) It was resolved that the CCR Regional Cabinet:

(1) re-endorsed the approved CCR Energy Strategy in its current form, attached at Appendix 1;

(2) endorsed the established set of objectives outlined in the Implementation Priorities for 2021/22, after which, a more expansive approach and strategy can be solidified and adopted through the proposed CCR Corporate Joint Committee;

(3) endorsed the pledge to apply to join the high-profile and symbolic Race to Zero campaign for the Cardiff Capital Region, submitting a full application based on meeting the minimum criteria for November 2021, and making this CCR's key pledge for COP 26;

(4) agreed to signing up the CCR to the Carbon Disclosure Commitment and submitting an application by the deadline date of July 2022 and developing new layers of data capability, accountability and rigour to support the Race to Zero;

(5) supported the request for a seed fund of £500,000 from the CCRCD Project Development Fund for investment in the activity outlined in para 16 above in respect of the Partnership Agreement with Flexis, building data capability and project team support; and

(6) provided a mandate to the CCR Director and Programme Board to agree the match funded contributions and external funding opportunities against the seed fund in order to derive co-ordinated regional impact and local support and capacity.

10. Proposal for MIPIM 2022

(1) Kellie presented the report and said that attendance at MIPIM in 2022 would be very different to the event in 2019. A small delegation would be sent to showcase the region's networks and the new Investment Prospectus.

(2) Leaders discussed the item:

1) Regarding travel insurance, Kellie confirmed that there was some collective cover under the Accountable Body for those employed direct but any local authorities who wished to also send an officer delegation would need to utilise their own authority's insurance cover.
2) Cllr Mudd requested clarification on the CCR delegation and Cllr Morgan agreed that Leaders would require rationale for each person's attendance. Kellie said that some CCR officers would attend to manage administration tasks and operation of the region's stand, but any attendance would be communicated to the Regional Cabinet for their approval prior to arrangements being made.
3) Cllr John said the region's attendance should be politically balanced with no party gaining any particular favour over attendance.
4) Cllr Thomas said that given it was the first MIPIM event post-pandemic and post-Brexit, it would be beneficial to the region to have a senior Welsh Government presence. Kellie confirmed that Welsh Government were a platinum sponsor of the region. In addition, the Western Gateway and Swansea Bay City Deal would also be aligned with the CCR delegation.

(3) Cllr Hunt obtained individual votes of acceptance from Leaders in the following order: Newport; Monmouthshire; Blaenau Gwent; Vale of Glamorgan; Merthyr Tydfil; Caerphilly; Rhondda Cynon Taf; Cardiff; Torfaen.

Cllr David was not present to vote for Bridgend.

(4) It was resolved that the CCR Regional Cabinet:

(1) agreed CCR's participation at MIPIM 2022, in line with the objectives set out in the report, in collaboration with the Invest in Cardiff Team at Cardiff Council, and in accordance with the business model set out in this report;

(2) agreed to ring-fence £10,000 of the Project Development Budget to allow the CCR Director discretion to supplement the resources already in place on the basis that attendance at the event will be enhanced and optimised as a result.

Recording of the meeting was stopped at 10:50

EXEMPT ITEMS

The reports and all appendices below, and discussion of them, are exempt from publication because they contain information of the kind described in paragraphs 14 (information relating to the financial or business affairs of any particular person) and 21 (public interest test) of parts 4 and 5 of Schedule 12A to the Local Government Act 1972 and in all the circumstances of the case the public interest in maintaining the exemption outweighs the public interest in disclosing the information

11. Report of the Investment Panel: Recommendations Logs and Project Updates

Pete Davies and Jonathan Davies joined the Microsoft Teams call at 10:58

(1) Cllr Hunt obtained individual votes of acceptance from Leaders in the following order: Newport; Monmouthshire; Blaenau Gwent; Vale of Glamorgan; Merthyr Tydfil; Caerphilly; Rhondda Cynon Taf; Cardiff; Torfaen.

Cllr David was not present to vote for Bridgend.

(2) It was resolved that the CCR Regional Cabinet accepted the recommendations of the exempt report.

12. CSC Foundry Limited – Annual Business Plan and Annual Update Report

(1) Cllr Hunt obtained individual votes of acceptance from Leaders in the following order: Newport; Monmouthshire; Blaenau Gwent; Vale of Glamorgan; Merthyr Tydfil; Caerphilly; Rhondda Cynon Taf; Cardiff; Torfaen.

Cllr David was not present to vote for Bridgend.

(2) It was resolved that the CCR Regional Cabinet accepted the recommendations of the exempt report.

Cyfarfod Cabinet Rhanbarthol
Prifddinas-Ranbarth Caerdydd

9.30am-11.30am ddydd Llun 28 Mehefin 2021
Cyfarfod Hybrid gan ddefnyddio Microsoft Teams

Cofnodion

* Italig yn dangos mynychwyr a oedd yn bresennol dros Microsoft Teams

Arweinwyr a Phrif Weithredwyr

Y Cynghorydd Nigel Daniels	*Arweinydd*	*CBS Blaenau Gwent*
Michelle Morris	*Rheolwr Gyfarwyddwr*	*CBS Blaenau Gwent*
Mark Shephard	*Prif Weithredwr*	*CBS Pen-y-bont ar Ogwr*
Y Cynghorydd Philippa Marsden	Arweinydd	CBS Caerffili
Mark Williams	Cyfarwyddwr Corfforaethol yr Economi a'r Amgylchedd	CBS Caerffili
Y Cynghorydd Huw Thomas	Arweinydd	Cyngor Caerdydd
Paul Orders	Prif Weithredwr	Cyngor Caerdydd
Y Cynghorydd Lisa Mytton	Arweinydd	CBS Merthyr Tudful
Ellis Cooper	Prif Weithredwr	CBS Merthyr Tudful
Y Cynghorydd Richard John	*Arweinydd*	*Cyngor Sir Fynwy*
Paul Matthews	*Prif Weithredwr*	*Cyngor Sir Fynwy*
Y Cynghorydd Jane Mudd	*Arweinydd*	*Cyngor Dinas Casnewydd*
Beverly Owen	*Prif Weithredwr*	*Cyngor Dinas Casnewydd*
Y Cynghorydd Andrew Morgan	Arweinydd	CBS Rhondda Cynon Taf
Chris Bradshaw	Prif Weithredwr	CBS Rhondda Cynon Taf
Y Cynghorydd Anthony Hunt	Arweinydd	CBS Torfaen
Rachel Jowitt	Prif Swyddog	CBS Torfaen
Y Cynghorydd Neil Moore	*Arweinydd*	*Cyngor Bro Morgannwg*
Rob Thomas (i ffwrdd 10:00-11:08)	*Prif Weithredwr*	*Cyngor Bro Morgannwg*

Swyddogion

Christopher Lee	Swyddog Adran 151	Corff Atebol
Anil Hirani	*Rheolwr Cyfrifeg*	*Corff Atebol*
Gareth Gates	Cyfrifydd	Corff Atebol
James Williams	Cyfreithiwr	Corff Atebol
Chloe Williams	*Cyfreithiwr*	*Corff Atebol*
Peter Davies (o 10:58)	*Prif Swyddog Adnoddau*	*Cyngor Sir Fynwy*
Jonathan Davies (o 10:58)	*Pennaeth Cyllid Cynorthwyol Dros Dro*	*Cyngor Sir Fynwy*
Kellie Beirne	Cyfarwyddwr	Swyddfa P-RC
Rhys Thomas	Prif Swyddog Gweithredol	Swyddfa P-RC
Nicola Somerville	Pennaeth Twf Cynhwysol a Datblygu Busnes	Swyddfa P-RC
Suzanne Chesterton	*Arweinydd Marchnata a Chyfathrebu*	*Swyddfa P-RC*

Robert O'Dwyer	Pennaeth Seilwaith	Swyddfa P-RC
Clare Cameron	Rheolwr Trafnidiaeth ac Ynni	Swyddfa P-RC
Nathan Llewellyn	*Swyddog Marchnata a Chyfathrebu*	*Swyddfa P-RC*
Alison Merrifield	*Swyddog Prosiectau*	*Swyddfa P-RC*
Nicola Butler	Swyddog Datblygu Busnes a Phartneriaethau	Swyddfa P-RC
Liz Fitzgerald (cofnodion)	*Swyddog Datblygu Busnes a Phartneriaethau*	*Swyddfa P-RC*

Cyflwynwyr

Sara-Jane Byrne	*Rheolwr Archwilio*	*Archwilio Cymru*
Phil Pugh (tan 10:09)	*Rheolwr Archwilio*	*Archwilio Cymru*

Arsylwyr

Gareth Ashman	*Pennaeth Seilwaith*	*Llywodraeth y DU*
Jenna Dillon	*Uwch-reolwr Cyflawni Prosiectau - De-ddwyrain Cymru*	*Llywodraeth Cymru*

Ymddiheuriadau

Y Cynghorydd Huw David	Arweinydd	CBS Pen-y-bont ar Ogwr
Christina Harrhy	Prif Weithredwr	CBS Caerffili
Hrjinder Singh	Pennaeth Cyllid, Risg a Sicrwydd	Swyddfa P-RC

Dechreuwyd recordio'r cyfarfod am 09:25

1. Croeso ac Ymddiheuriadau

Agorodd y Cynghorydd Hunt y cyfarfod a chroesawodd yr holl fynychwyr i'r fformat hybrid newydd. Rhoddodd Kellie arweiniad a sicrwydd ar sut y byddai'r cyfarfod yn cael ei gynnal i sicrhau bod pob Arweinydd yn cymryd rhan lawn yn y cyfarfod, boed yn bersonol neu drwy Microsoft Teams.

2. Datgan Buddiannau

(1) Datganodd y Cynghorydd Andrew Morgan fuddiant yn Eitem 4, Cynllun Archwilio Blynyddol Archwilio Cymru 2020/21, oherwydd ei fod yn adnabod Phil Pugh a'i deulu yn bersonol.

(2) Datganodd y Cynghorydd Lisa Mytton fuddiant yn Eitem 11, Adroddiad y Panel Buddsoddi: Argymhellion, Cofnodion a'r Diweddaraf ar Brosiectau, gan ei bod wedi cael ei chyflogi'n flaenorol gan un o'r sefydliadau a oedd yn cael eu trafod.

(3) Datganodd Beverly Owen fuddiant yn Eitem 12, CSC Foundry Limited – Cynllun Busnes Blynyddol ac Adroddiad Diweddaru Blynyddol, gan ei bod yn aelod o Fwrdd CSC Foundry Limited.

3. Cofnod y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Mawrth 2021

Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Mawrth fel cofnod cywir o'r cyfarfod, yn amodol ar gywiro rhagenw'r Cynghorydd John yn y rhestr presenoldeb.

4. Cynllun Archwilio Blynyddol Archwilio Cymru 2020/21

(1) Cyflwynodd Phil Pugh yr adroddiad a chrynhoi'r cynnwys. Ychwanegodd Sara-Jane Byrne y byddai ffioedd Archwilio Cymru yn codi, oherwydd y gwaith ychwanegol sydd ei angen i drosglwyddo P-RC i strwythur CBC. Nid oedd yn gallu pennu ar y pryd faint fyddai'r gwahaniaeth mewn perthynas â'r ffioedd presennol.

(2) Nododd Sara-Jane y gwrthdaro buddiannau posibl a amlygwyd ym mharagraff 28 ar dudalen 12 yr adroddiad. Fel y nodwyd yn yr adroddiad, ni ragwelodd unrhyw faterion yn codi.

(3) Dywedodd Sara-Jane y bu rhai newidiadau staff yn Archwilio Cymru. Roedd Ann-Marie Harkin wedi cael ei dyrchafu'n Gyfarwyddwr Gweithredol y Tîm Arweinyddiaeth Weithredol. Penodwyd Derwyn Owen yn Gyfarwyddwr Ymgysylltu.

(4) Derbyniodd yr arweinwyr y Cynllun Archwilio.

5. Datganiad Cyfrifon Drafft a Datganiad Llywodraethu Blynyddol Drafft 2020/21 – Rheolaethau, Sgoriau a Chamau Gweithredu

(1) Cyflwynodd Christopher yr adroddiad. Dywedodd y byddai'r archwiliad ar-lein o'r cyfrifon drafft ar gael am gyfnod o bedair wythnos. Yna gofynnir i'r Cabinet Rhanbarthol lofnodi'r cyfrifon erbyn 30 Tachwedd 2021 ar yr hwyraf, pan fyddai'r cyfrifon a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn cael eu cyhoeddi. Byddai fersiwn fyrrach o'r DLlB ar gael ar gyfer y cyfarfod nesaf.

(2) Derbyniodd y Cynghorydd Hunt bleidleisiau derbyn unigol gan yr Arweinwyr yn y drefn ganlynol: Casnewydd; Sir Fynwy; Blaenau Gwent; Bro Morgannwg; Merthyr Tudful; Caerffili; Rhondda Cynon Taf; Caerdydd; Torfaen.

Nid oedd y Cynghorydd David yn bresennol i bleidleisio dros Ben-y-bont ar Ogwr.

(3) Pennwyd bod Cabinet Rhanbarthol P-RC:

(1) yn nodi bod y Datganiad Cyfrifon Drafft ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021 (ynghlwm fel Atodiad 1):

i. wedi cael ei lofnodi gan Swyddog Adran 151;
ii. wedi cael ei gyflwyno i Archwilio Cymru i'w galluogi i ddechrau ar y gwaith o archwilio'r datganiadau;
iii. yn mynd i fod ar gael i'r cyhoedd ei archwilio am bedair wythnos.

(2) yn nodi y byddai'r ddogfen Datganiad Llywodraethu Blynyddol Drafft – Rheolaethau, Sgoriau a Chamau Gweithredu (sydd wedi'i hatodi

fel Atodiad 2) yn cael ei darparu i Archwilio Cymru fel rhan o'r archwiliad a'i ddiweddaru gyda sylwadau pellach cyn ei chwblhau.

6. Sefyllfa Alldro Derfynol Cyllideb Refeniw'r Cydbwyllgor

(1) Cyflwynodd Christopher yr adroddiad. Holodd y Cynghorydd Marsden am y mater o recriwtio ar gyfer swyddfa P-RC, ond byddai trafodaeth bellach yn cael ei chynnal yn ystod y Briffiad yn ddiweddarach y bore hwnnw.

(2) Derbyniodd y Cynghorydd Hunt bleidleisiau derbyn unigol gan yr Arweinwyr yn y drefn ganlynol: Casnewydd; Sir Fynwy; Blaenau Gwent; Bro Morgannwg; Merthyr Tudful; Caerffili; Rhondda Cynon Taf; Caerdydd; Torfaen.

Nid oedd y Cynghorydd David yn bresennol i bleidleisio dros Ben-y-bont ar Ogwr.

(3) Pennwyd bod Cabinet Rhanbarthol P-RC:

(1) yn nodi'r sefyllfa alldro derfynol yn erbyn Cyllideb Refeniw gymeradwy'r Cydbwyllgor ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020.

7. Adroddiad Perfformiad Chwarter 4 Cynllun Busnes Blynyddol 2020/21

Mae Atodiad 4 o'r adroddiad hwn wedi'i eithrio rhag cael ei gyhoeddi oherwydd ei fod yn cynnwys y fath wybodaeth a ddisgrifir ym mharagraffau 14 (gwybodaeth sy'n ymwneud â materion ariannol neu fusnes unrhyw berson penodol) a 21 (prawf budd y cyhoedd) o rannau 4 a 5 Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, a dan holl amgylchiadau'r achos, mae budd y cyhoedd o ran cynnal yr eithriad yn gwrthbwyso budd y cyhoedd o ran datgelu'r wybodaeth.

(1) Cyflwynodd Kellie yr adroddiad a dywedodd wrth yr Arweinwyr fod Atodiad 3 mewn templed a fyddai'n cael ei fabwysiadu ar gyfer monitro adroddiadau wrth symud ymlaen. Cadarnhaodd fod trefniadau ar y gweill am gyfarfodydd un-i-un gydag arweinwyr portffolio.

(2) Nododd y Cynghorydd Thomas fod rhai tanwariannau cyfalaf yn y wybodaeth ariannol yn Atodiad 2. Cadarnhaodd Kellie eu bod yn ymwneud yn bennaf â'r cynlluniau cyfalaf Metro+ a Metro Canolog. O ran y prosiectau Metro+, roeddent ar wahanol gamau ac roedd cynnydd yn amodol ar symbyliad awdurdodau lleol. O ran y Metro Canolog, roedd proses yr achos busnes yn mynd rhagddi ac roedd P-RC yn gweithio gyda Trafnidiaeth Cymru ar adeiladu cynnig.

(3) Derbyniodd y Cynghorydd Hunt bleidleisiau derbyn unigol gan yr Arweinwyr yn y drefn ganlynol: Casnewydd; Sir Fynwy; Blaenau Gwent; Bro Morgannwg; Merthyr Tudful; Caerffili; Rhondda Cynon Taf; Caerdydd; Torfaen.

Nid oedd y Cynghorydd David yn bresennol i bleidleisio dros Ben-y-bont ar Ogwr.

(4) Pennwyd bod Cabinet Rhanbarthol P-RC:

(1) yn nodi'r cynnydd cyffredinol yn Chwarter 4 2020/21 gan gynnwys sefyllfa'r gyllideb a adroddwyd yn Atodiad 2;

(2) yn cymeradwyo adroddiad perfformiad Chwarter 4 ac yn awdurdodi Cyfarwyddwr Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd i gyflwyno'r adroddiad yn ffurfiol, gan gynnwys gwybodaeth ategol i lywodraethau'r DU a Chymru, ac i randdeiliaid eraill yn ôl yr angen, ar ran y Cabinet Rhanbarthol;

(3) yn nodi Adroddiad Monitro Rhaglenni Chwarter 4 yn Atodiad 3, sy'n gosod y dull gwell o ymdrin ag adroddiadau prif bwyntiau a'r gwaith monitro rhaglenni cynhwysfawr cyffredinol ar y swp cyntaf o brosiectau cyflawni.

8. Datblygu Fframwaith ar gyfer Rheoli Risg

(1) Cyflwynodd Kellie yr adroddiad.

Gadawodd Phil Pugh y cyfarfod am 10:09

(2) Roedd y Cynghorydd Marsden am nodi pwysigrwydd ystyried newid hinsawdd o fewn risg, a chroesawodd y ffaith fod hyn wedi'i gynnwys yn yr adroddiad. Cytunodd y Cynghorydd Hunt a nododd fod mwy o ymwybyddiaeth o'r ffaith fod gwerth-am-arian a risg yn berthnasol i fwy na materion ariannol yn unig a'u bod hefyd yn cynnwys materion fel codi safonau cyflogaeth a thwf cynhwysol ar draws pob cymuned; gellid defnyddio awydd risg er budd yr economi gyfan.

(3) Gofynnodd y Cynghorydd Thomas a oedd cyfle i alinio'r polisi ymhellach â gwaith awdurdodau lleol unigol ar draws y rhanbarth. Roedd gan bob awdurdod lleol eu cynlluniau ymateb argyfwng hinsawdd eu hunain a gofynnodd y Cynghorydd Thomas a ellid defnyddio'r Gronfa Fuddsoddi Ehangach i gefnogi awdurdodau lleol a oedd yn cyflwyno eu cynlluniau eu hunain. Cytunodd Kellie a dywedodd fod y materion hyn wedi'u cyflwyno yn yr adroddiad nesaf ar yr agenda, Strategaeth Ynni P-RC.

(4) Derbyniodd y Cynghorydd Hunt bleidleisiau derbyn unigol gan yr Arweinwyr yn y drefn ganlynol: Casnewydd; Sir Fynwy; Blaenau Gwent; Bro Morgannwg; Merthyr Tudful; Caerffili; Rhondda Cynon Taf; Caerdydd; Torfaen.

Nid oedd y Cynghorydd David yn bresennol i bleidleisio dros Ben-y-bont ar Ogwr.

(5) Pennwyd bod Cabinet Rhanbarthol P-RC:

(1) yn nodi gwaith AON, Swyddfa P-RC a rhanddeiliaid ehangach mewn perthynas â'r argymhellion a'r datganiadau awydd risg i ategu Fframwaith Risg Craidd P-RC;

(2) yn cydnabod y cyd-drefnu a'r integreiddio sydd ei angen gyda'r Strategaeth Fuddsoddi P-RC ddatblygiadol (a fydd yn gweithredu'r Adolygiad FfBY diweddar) ac yn cydnabod ymhellach yr angen i

dderbyn a gosod y gwaith hwn o fewn y broses bontio ar gyfer y CBC;

(3) yn nodi a chymeradwyo diweddariad Cofrestr Risg P-RC sydd, cyn belled ag y bo modd, yn dechrau datblygu ac ymgorffori themâu a materion allweddol a nodwyd yn y gwaith AON.

9. Strategaeth Ynni P-RC – Blaenoriaethau Gweithredu 2021/22 a Chofleidio'r Ras i Sero

(1) Cyflwynodd Kellie yr adroddiad a thynnodd sylw at weithgarwch rhanbarthol diweddar fel y diwrnod cynllunio rhanbarthol a gynhaliwyd ar 16 Mehefin a'r gynhadledd COP26 sydd ar ddod.

(2) Trafododd yr arweinwyr yr eitem:

1) Dywedodd y Cynghorydd Mytton fod yr adroddiad yn rhoi darlun cyfannol o'r pwnc.
2) Dywedodd y Cynghorydd John fod awdurdodau lleol wedi ymrwymo i gydnabod yr argyfwng newid hinsawdd. Roedd hyn yn dangos bod y rhanbarth yn ddeinamig ac yn flaengar.
3) Gofynnodd y Cynghorydd Mudd am eglurder ynghylch y cynnig ac arian cyfatebol a gofynnodd a fyddai arian ychwanegol neu gyfateb buddsoddiadau presennol yn opsiwn. Cadarnhaodd Kellie nad oedd y costau'n effeithio ar yr amlen ariannol bresennol. Nid oedd gan Kellie yr awdurdod i gymeradwyo unrhyw beth sy'n ychwanegol at yr amlen; byddai unrhyw gostau gormodol o'r fath yn cael eu cyflwyno i'r Cabinet Rhanbarthol i'w cymeradwyo.
4) Roedd y Cynghorydd Mudd hefyd am nodi'r cyfleoedd ehangach; roedd yn iawn canolbwyntio ar y materion ond ni ddylai'r rhanbarth golli golwg ar ei leoliad a'i asedau naturiol unigryw ar draws yr ardal ddaearyddol. Nododd fod Porth y Gorllewin yn bwriadu mynychu COP26 a hoffai ystyried sut y gallai'r rhanbarth ymuno â Llywodraethau'r DU a Chymru i gyflymu'r newid o fewn y rhanbarth.
5) Cefnogodd y Cynghorydd Thomas bwyntiau'r Cynghorydd Mudd ond ailadroddodd yr angen i adeiladu ar yr hyn yr oedd yr awdurdodau lleol eisoes wedi'i gyflawni. Er enghraifft, roedd Cyngor Caerdydd wedi buddsoddi'n sylweddol yn yr hyn yr oedd ei angen i ddod yn gyngor sero net.
6) Byddai arweinwyr yn croesawu eglurhad ynghylch costau tebygol gan ei bod yn bwysig fod ganddynt yr ymwybyddiaeth honno; roedd yn bwysig cael eglurder a thryloywder o ran cyfraniadau ariannol parhaus.
7) Awgrymodd y Cynghorydd Marsden y dylid cytuno ar argymhelliad ychwanegol, i'r perwyl y byddai P-RC yn (a) cynnal ymarfer mapio o brosiectau ynni cyfredol a (b) adrodd yn ôl cyn i unrhyw brosiectau gyflwyno dangosydd o'r adnoddau sydd eu hangen yn y dyfodol. Cytunodd arweinwyr i'r argymhelliad ychwanegol.

(3) Derbyniodd y Cynghorydd Hunt bleidleisiau derbyn unigol gan yr Arweinwyr yn y drefn ganlynol: Casnewydd; Sir Fynwy; Blaenau Gwent; Bro Morgannwg; Merthyr Tudful; Caerffili; Rhondda Cynon Taf; Caerdydd; Torfaen.

Nid oedd y Cynghorydd David yn bresennol i bleidleisio dros Ben-y-bont ar Ogwr.

(4) Pennwyd bod Cabinet Rhanbarthol P-RC:

(1) yn ail-gymeradwyo'r Strategaeth Ynni P-RC gymeradwy ar ei ffurf bresennol, sydd wedi'i hatodi yn Atodiad 1;

(2) yn cymeradwyo'r set sefydledig o amcanion a amlinellir yn y Blaenoriaethau Gweithredu ar gyfer 2021/22, ac ar ôl hynny, gellir cadarnhau a mabwysiadu dull a strategaeth ehangach drwy Gydbwyllgor Corfforaethol arfaethedig P-RC;

(3) yn cymeradwyo'r addewid i wneud cais i ymuno â'r ymgyrch Ras i Sero proffil-uchel a symbolaidd ar gyfer Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, gan gyflwyno cais llawn yn seiliedig ar fodloni'r meini prawf gofynnol ar gyfer mis Tachwedd 2021, a gwneud hyn yn addewid allweddol i P-RC ar gyfer COP26;

(4) yn cytuno i gofrestru P-RC i'r Ymrwymiad Datgelu Carbon a chyflwyno cais erbyn y dyddiad cau ym mis Gorffennaf 2022 a datblygu haenau newydd o allu data, atebolrwydd a thrylwyredd i gefnogi'r Ras i Sero;

(5) yn cefnogi'r cais am gronfa sbarduno o £500,000 o Gronfa Datblygu Prosiectau BDdPRC i fuddsoddi yn y gweithgarwch a amlinellir ym mharagraff 16 uchod mewn perthynas â'r Cytundeb Partneriaeth gyda Flexis, gan adeiladu gallu data a chymorth tîm prosiect; a

(6) yn rhoi mandad i Gyfarwyddwr a Bwrdd Rhaglen P-RC gytuno ar y cyfraniadau a ariennir yn gyfatebol a chyfleoedd ariannu allanol yn erbyn y gronfa sbarduno er mwyn cael effaith ranbarthol gydgysylltiedig a chymorth a chapasiti lleol.

10. Cynnig ar gyfer MIPIM 2022

(1) Cyflwynodd Kellie yr adroddiad a dywedodd y byddai presenoldeb ym MIPIM 2022 yn wahanol iawn i'r digwyddiad yn 2019. Byddai dirprwyaeth fach yn cael ei hanfon i arddangos rhwydweithiau'r rhanbarth a'r Prosbectws Buddsoddi newydd.

(2) Trafododd yr arweinwyr yr eitem:

1) O ran yswiriant teithio, cadarnhaodd Kellie fod rhywfaint o gyd-yswiriant o dan y Corff Atebol ar gyfer y rhai a gyflogir yn uniongyrchol ond byddai angen i unrhyw awdurdodau lleol a oedd am anfon dirprwyaeth o swyddogion hefyd ddefnyddio yswiriant eu hawdurdod eu hunain.
2) Gofynnodd y Cynghorydd Mudd am eglurhad ar ddirprwyaeth P-RC a chytunodd y Cynghorydd Morgan y byddai angen sail resymegol ar Arweinwyr dros bresenoldeb pob person. Dywedodd Kellie y byddai rhai swyddogion P-RC yn bresennol i reoli tasgau gweinyddu a gweithredu stondin y rhanbarth, ond byddai unrhyw bresenoldeb yn cael ei gyfleu i'r Cabinet Rhanbarthol i'w gymeradwyo cyn i drefniadau gael eu gwneud.
3) Dywedodd y Cynghorydd John y dylai presenoldeb y rhanbarth fod yn wleidyddol gytbwys, heb fod yr un blaid ennill unrhyw ffafriaeth benodol drwy bresenoldeb.

4) Dywedodd y Cynghorydd Thomas, o ystyried mai dyma'r digwyddiad MIPIM cyntaf ar ôl y pandemig ac ar ôl Brexit, y byddai'n fuddiol i'r rhanbarth gael uwch bresenoldeb o Lywodraeth Cymru. Cadarnhaodd Kellie fod Llywodraeth Cymru yn noddwr platinwm ar gyfer y rhanbarth. Yn ogystal, byddai Porth y Gorllewin a Bargen Ddinesig Bae Abertawe hefyd yn cael eu halinio â dirprwyaeth P-RC.

(3) Derbyniodd y Cynghorydd Hunt bleidleisiau derbyn unigol gan yr Arweinwyr yn y drefn ganlynol: Casnewydd; Sir Fynwy; Blaenau Gwent; Bro Morgannwg; Merthyr Tudful; Caerffili; Rhondda Cynon Taf; Caerdydd; Torfaen.

Nid oedd y Cynghorydd David yn bresennol i bleidleisio dros Ben-y-bont ar Ogwr.

(4) Pennwyd bod Cabinet Rhanbarthol P-RC:

(1) yn cytuno ar gyfranogiad P-RC yn MIPIM 2022, yn unol â'r amcanion a nodir yn yr adroddiad, mewn cydweithrediad â'r Tîm Cyfoethogi Caerdydd yng Nghyngor Caerdydd, ac yn unol â'r model busnes a nodir yn yr adroddiad hwn;

(2) yn cytuno i neilltuo £10,000 o Gyllideb Datblygu'r Prosiect er mwyn caniatáu disgresiwn i Gyfarwyddwr P-RC ategu'r adnoddau sydd eisoes ar waith ar y sail y bydd presenoldeb yn y digwyddiad yn cael ei wella a'i optimeiddio o ganlyniad.

Rhoddwyd y gorau i recordio'r cyfarfod am 10:50

EITEMAU EITHRIEDIG

Mae'r adroddiadau a'r holl atodiadau isod wedi'u heithrio rhag cael eu cyhoeddi a'u trafod oherwydd eu bod yn cynnwys y fath wybodaeth a ddisgrifir ym mharagraffau 14 (gwybodaeth sy'n ymwneud â materion ariannol neu fusnes unrhyw berson penodol) a 21 (prawf budd y cyhoedd) o rannau 4 a 5 Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 a dan holl amgylchiadau'r achos, mae budd y cyhoedd o ran cynnal yr eithriad yn gwrthbwyso budd y cyhoedd o ran datgelu'r wybodaeth.

11. Adroddiad y Panel Buddsoddi: Argymhellion, Cofnodion a'r Diweddaraf ar Brosiectau

Ymunodd Pete Davies a Jonathan Davies â'r alwad Microsoft Teams am 10:58

(1) Derbyniodd y Cynghorydd Hunt bleidleisiau derbyn unigol gan yr Arweinwyr yn y drefn ganlynol: Casnewydd; Sir Fynwy; Blaenau Gwent; Bro Morgannwg; Merthyr Tudful; Caerffili; Rhondda Cynon Taf; Caerdydd; Torfaen.

Nid oedd y Cynghorydd David yn bresennol i bleidleisio dros Ben-y-bont ar Ogwr.

(2) Penderfynwyd bod Cabinet Rhanbarthol P-RC yn derbyn argymhellion yr adroddiad eithriedig.

12. CSC Foundry Limited – Cynllun Busnes Blynyddol ac Adroddiad

Diweddaru Blynyddol

(1) Derbyniodd y Cynghorydd Hunt bleidleisiau derbyn unigol gan yr Arweinwyr yn y drefn ganlynol: Casnewydd; Sir Fynwy; Blaenau Gwent; Bro Morgannwg; Merthyr Tudful; Caerffili; Rhondda Cynon Taf; Caerdydd; Torfaen.

Nid oedd y Cynghorydd David yn bresennol i bleidleisio dros Ben-y-bont ar Ogwr.

(2) Penderfynwyd bod Cabinet Rhanbarthol P-RC yn derbyn argymhellion yr adroddiad eithriedig.